# Nodiadau'r Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrsio a Bydwreigiaeth
# 17 Mawrth 2015

**Yn bresennol:** Julie Morgan AC (Cadeirydd),
Tina Donnelly CBE, Cyfarwyddwr Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) Cymru (ac Ysgrifennydd y Grŵp)
Kirsty Williams AC
Darren Millar AC
Elin Jones AC
David Rees AC
Andrew RT Davies AC
Christine Edwards-Jones, Aelod o Fwrdd RCN Cymru
Fran Harries, Siaradwr Gwadd
Lisa Turnbull, Cynghorydd Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru a
Richard Jones MBE,
Yr Athro Fonesig June Clark
Rory Farrelly, Cyfarwyddwr Nyrsio - Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Denise Llewellyn, Cyfarwyddwr Nyrsio - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Paul Labourne - Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
John Williams - Ymchwilydd i Kirsty Williams AC
Sian Giddins - Dirprwy Glerc, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Susan Edmunds, Cynghorydd, y Coleg Nyrsio Brenhinol
Ray Harries
Liam Anstey, Cynorthwy-ydd Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
(Cofnodion)

**Ymddiheuriadau:** Janet Finch-Saunders AC, Angela Burns AC, Mick Antoniw AC, Aled Roberts AC, Gaynor Jones - Cadeirydd Bwrdd RCN Cymru, Kate Parry - Is-gadeirydd Bwrdd RCN Cymru, Christine Thomas - Aelod o Gyngor RCN Cymru, Ruth Walker, Cyfarwyddwr Nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; Angela Hopkins, Cyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Caroline Oakley, Cyfarwyddwr Nyrsio - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Peter Meredith-Smith, Cyfarwyddwr - Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru

## 1. Croeso gan Julie Morgan AC, y Cadeirydd

Croesawodd Julie Morgan AC bawb i'r cyfarfod.

## 2. Sylwadau Agoriadol gan Tina Donnelly CBE, Cyfarwyddwr Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

Rhoddodd Tina Donnelly gyflwyniad i'r cyfarfod ar y Bil Lefelau Diogel Staffio Nyrsio (Cymru). Hefyd eglurodd Mrs Donnelly pam mae'r RCN yn credu y dylid defnyddio deddfwriaeth i sicrhau y ceir Lefelau Diogel Staffio Nyrsio, yn hytrach nag Arweiniad Gorfodol gan y Gweinidog, a phwysleisiodd mai deddfwriaeth yn unig a wnaiff orfodi Gweinidogion yn y dyfodol i gyhoeddi canllawiau statudol a darparu parhad o ran gwaith rhwng Gweinidogion.

## 3. Christine Edwards-Jones - Aelod o Fwrdd RCN Cymru yn trafod ei phrofiad fel Nyrs a pham fod y Bil yn angenrheidiol:

Amlinellodd Christine Edwards-Jones ei swydd bresennol fel Rheolwr Ward ar Ward Feddygol 40-gwely ar gyfer Pobl Hŷn. Nododd, ar gyfartaledd, fod y Gymhareb Nyrs: Cleifion yn 1:8 ar ei ward yn ystod y dydd, ac yn 1:13 yn ystod y nos. Eglurodd Ms Edwards-Jones hefyd fod y gymhareb Nyrs: Cleifion ar rai wardiau yn 01:16 yn ystod y nos. Ychwanegodd hefyd, er bod y diwylliant yn newid yn ei Bwrdd Iechyd hi, dywedodd fod deddfwriaeth yn angenrheidiol er mwyn atgyfnerthu'r newid. Gwnaeth Ms Edwards-Jones y pwynt fod nyrsys ar y ward am 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, a bod diffyg nyrsys yn cael effaith uniongyrchol ar ofal cleifion.

## 4. Fran Harries yn trafod ei phrofiad fel Nyrs ac fel claf

Dywedodd Fran Harries wrth aelodau'r Grŵp am ei phrofiad cadarnhaol pan oedd yn glaf yn Ysbyty Llandochau, a rhoddodd wybodaeth hefyd am ei chefndir ym maes nyrsio. Eglurodd Mrs Harries nad oedd hi wedi edrych ymlaen at gael triniaeth' yn Ysbyty Llandochau, yn rhannol o ganlyniad i glywed straeon negyddol yn y cyfryngau am y gofal o gleifion. Fodd bynnag, eglurodd Mrs Harries ei bod wedi cael gwasanaeth a oedd, yn wir, yn 'Wasanaeth Safon Aur', a bod gan y nyrsys yr amser i ofalu'n iawn am y cleifion ac i gyfathrebu â hwy. Mae Mrs Harries o'r farn bod y ddeddfwriaeth yn bwysig ac yn angenrheidiol i wella Lefelau Staffio ar wardiau eraill.

## 5. Lisa Turnbull, Cynghorydd Polisi a Materion Cyhoeddus - RCN Cymru, yn nodi pam y dewisodd y Coleg Nyrsio Brenhinol ymgyrchu dros ddeddfwriaeth.

Siaradodd Lisa am gyfnod byr, gan bwysleisio'r grym sydd gan ddeddfwriaeth i greu newid. Nododd fod data'r RCN yn dangos nad yw Byrddau Iechyd erioed wedi cyflawni Cymhareb y Prif Swyddog Nyrsio.

## 6. Trafodaeth ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

Yn dilyn y cyflwyniadau, bu Julie Morgan AC yn cadeirio trafodaeth fywiog gyda chyfranogwyr ynghylch y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru).

Clowyd y cyfarfod yn ffurfiol gan Julie Morgan AC am 7.30pm ond arhosodd yr aelodau'n hwy i sgwrsio'n anffurfiol.

DRAFT